



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 3246 (Cy.321)

2003 No. 3246 (W.321)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003

The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi terfynau ar bwerau athrawon sydd â gofal unedau cyfeirio disgyblion i wahardd disgyblion o dan adran 52(2) o Ddeddf Addysg 2002, a'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan yr athro neu'r athrawes â gofal a'r awdurdod addysg lleol yn dilyn gwaharddiad o uned cyfeirio disgyblion.

These Regulations prescribe limits on the powers of teachers in charge of pupil referral units to exclude pupils under section 52(2) of the Education Act 2002, and the procedure which is to be followed by the teacher in charge and the local education authority following an exclusion from a pupil referral unit.

Mae Rheoliad 2 yn cyflwyno diffiniad newydd o "berson perthnasol" at ddiben y Rheoliadau hyn ac yn darparu hefyd fod unrhyw waharddiad am gyfnod penoddedig yn ystod yr amser cinio i'w gyfrif yn waharddiad am chwarter o ddiwrnod ysgol.

Regulation 2 introduces a new definition of "relevant person" for the purposes of these Regulations and also provides that any fixed period exclusion during the lunchtime period is to be counted as an exclusion for a quarter of a school day.

Mae Rheoliad 3 yn rhagnodi'r awdurdod addysg lleol fel y corff cyfrifol o dan adran 52(3) o Ddeddf 2002 ar gyfer ystyried a ddylid derbyn y disgybl sydd wedi'i wahardd yn ôl i'r ysgol.

Regulation 3 prescribes the local education authority as the body responsible under section 52(3) of the 2002 Act for considering whether the excluded pupil should be reinstated.

Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r athro neu'r athrawes â gofal hysbysu'r person perthnasol o fanylion gwaharddiad. Rhaid i'r athro neu'r athrawes â gofal hefyd hysbysu'r awdurdod addysg lleol a yw'r gwaharddiad yn barhaol, a fydd yn golygu bod y disgybl yn colli arholiad cyhoeddus, neu a fydd yn mynd â chyfanswm y gwaharddiadau i'r disgybl hwnnw dros bum diwrnod mewn unrhyw dymor.

Regulation 5 requires the teacher in charge to inform the relevant person of details of an exclusion. The teacher in charge must also inform the local education authority if the exclusion is permanent, will result in the pupil missing a public examination, or takes the total exclusions for that pupil over five days in a term.

Mae Rheoliad 6 yn darparu ynglŷn ag ystod yr wybodaeth y mae rhaid i'r athro neu'r athrawes â gofal ei darparu i'r awdurdod addysg lleol ac ystod yr wybodaeth y mae rhaid i'r awdurdod addysg lleol ei darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd yn gofyn amdani.

Regulation 6 makes provision as to the range of information that the teacher in charge must provide to the local education authority and the range of information the local education authority must provide to the National Assembly for Wales at its request.

Mae Rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr awdurdod addysg lleol, os bydd y gwaharddiad yn golygu y bydd y disgybl yn colli arholiad cyhoeddus, neu'n mynd â chyfanswm y gwaharddiadau ar gyfer y disgybl hwnnw dros 15 diwrnod mewn tymor, yn ystyried yr amgylchiadau, gwranddo ar unrhyw sylwadau gan y person perthnasol, y disgybl sydd wedi'i wahardd os nad y person perthnasol yw'r disgybl hwnnw, a'r athro neu'r athrawes â gofal, a phenderfynu a ddylid derbyn y disgybl yn ôl neu beidio.

Mae Rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i'r person perthnasol apelio yn erbyn penderfyniad yr athro neu'r athrawes â gofal i wahardd disgybl yn barhaol. Nid yw methiant i ddilyn gofynion gweithdrefnol ynddo'i hun i arwain at benderfyniad i dderbyn yn ôl. Mae penderfyniad y panel apêl yn rhwymol. Caiff y panel benderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i dderbyn disgybl yn ôl os yw'n ystyried nad yw'n ymarferol oherwydd amgylchiadau eithriadol neu resymau eraill.

Mae Rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon â gofal, awdurdodau addysg lleol a phanelau apêl roi sylw i ganllawiau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Atodlen yn rhagnodi cyfansoddiad y panelau apêl a'r gweithdrefnau ar eu cyfer drwy wneud addasiadau priodol i'r Atodlen i Reoliadau Addysg (Gwaharddiadau ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003.

Regulation 7 requires the local education authority, where the exclusion will result in the pupil missing a public examination, or takes the total exclusions for that pupil over 15 days in a term, to consider the circumstances, listen to any representations from the relevant person, the excluded pupil where the pupil is not the relevant person and the teacher in charge, and to decide whether the pupil should be reinstated or not.

Regulation 8 requires the local education authority to make arrangements for the relevant person to appeal against a decision of the teacher in charge to permanently exclude a pupil. A failure to follow procedural requirements is not of itself to lead to a decision to reinstate. The decision of the appeal panel is binding. The panel may decide not to issue a direction requiring reinstatement of the pupil if they consider it is not practical because of exceptional circumstances or other reasons.

Regulation 9 requires teachers in charge, local education authorities and appeal panels to have regard to guidance given by the National Assembly for Wales.

The Schedule prescribes the constitution and procedure for appeal panels by making appropriate modifications to the Schedule to the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003.

2003 Rhif 3246 (Cy.321)**2003 No. 3246 (W.321)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003****The Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003***Wedi'u gwneud**9 Rhagfyr 2003**Made**9th December 2003**Yn dod i rym**9 Ionawr 2004**Coming into force**9th January 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 52(3), (4), a (5), 210(7) a 214 o Ddeddf Addysg 2002(a), ac ar ôl ymgynghori gyda'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn unol ag adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(b), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

In exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 52(3), (4) and (5), 210(7) and 214 of the Education Act 2002(a), and after consultation with the Council on Tribunals in accordance with section 8 of the Tribunals and Inquiries Act 1992(b), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Name, commencement and application**

1. -(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 9 Ionawr 2004.

1.-(1) These Regulations are called the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Pupil Referral Units) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 9th January 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dehongli**Interpretation**

2. -(1) Yn y Rheoliadau hyn -

2.-(1) In these Regulations -

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002;

ystyr "y person perthnasol" ("*the relevant person*") -

"the 2003 Regulations" ("*Rheoliadau 2003*") means the Education (Pupil Exclusions and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003(c);

(a) o ran disgybl a oedd yn 10 oed neu'n iau ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd y disgybl hwnnw ei wahardd, yw un o'i rieni;

"the relevant person" ("*y person perthnasol*") means -

(b) o ran disgybl o oedran ysgol gorfodol a oedd yn 11 oed neu'n hŷn ar y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol y cafodd y disgybl hwnnw ei wahardd, yw'r disgybl hwnnw ac un o'i rieni;

(a) in relation to a pupil who was aged 10 or below on the day before the beginning of the school year in which that pupil is excluded, a parent of his or hers;

(a) 2002 p.32; gweler adran 212(1) i gael ystyr "regulations a "prescribed".

(a) 2002 c.32; see section 212(1) for the meaning of "regulations" and "prescribed".

(b) 1992 p.53, a ddiwygiwyd gan baragraff 22 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.

(b) 1992 c.53, amended by paragraph 22 of Schedule 21 to the Education Act 2002.

(c) S.I. 2003/3227 (W.308).

(c) o ran disgybl sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol, yw'r disgybl ei hun;
ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003(a).

(2) Mae unrhyw waharddiad am gyfnod penodedig yn ystod y cyfnod rhwng sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn mewn ysgol ar gyfer dibenion y Rheoliadau hyn i'w cymryd yn gyfystyr â chwarter diwrnod ysgol.

Y Corff Cyfrifol

3. At ddibenion adran 52(5) o Ddeddf 2002 rhagnodir yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal uned cyfeirio disgyblion(b) fel y corff cyfrifol mewn perthynas â gwaharddiad am gyfnod penodedig o'r uned cyfeirio disgyblion honno.

Pŵer athro neu athrawes â gofal i wahardd disgyblion

4. Ni chaiff athro neu athrawes â gofal arfer y pŵer o dan adran 52(2) o Ddeddf 2002 er mwyn gwahardd disgybl o'r uned cyfeirio disgyblion am gyfnod neu gyfnodau penodedig, os bydd hynny'n golygu y byddai'r plentyn yn cael ei wahardd am fwy na 45 diwrnod ysgol mewn unrhyw flwyddyn ysgol unigol.

Gwahardd disgyblion: y ddyletswydd i hysbysu'r person perthnasol a'r awdurdod addysg lleol

5. -(1) Os bydd athro neu athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion yn gwahardd unrhyw ddisgybl am gyfnod penodedig, rhaid i'r athro neu'r athrawes â gofal yn ddi-oed gymryd camau rhesymol i hysbysu'r person perthnasol o'r materion canlynol -

- (a) cyfnod y gwaharddiad;
- (b) y rhesymau dros y gwaharddiad;
- (c) y caiff roi sylwadau am y gwaharddiad i'r awdurdod addysg lleol a chaiff y disgybl sydd wedi'i wahardd roi sylwadau hefyd am y gwaharddiad i'r awdurdod addysg lleol os nad y person perthnasol yw'r disgybl hwnnw; ac
- (ch) drwy ba ddull y caniateir i'r sylwadau hynny gael eu rhoi.

(2) Os bydd athro neu athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion yn gwahardd unrhyw ddisgybl am gyfnod penodedig mewn amgylchiadau y byddai'r disgybl, yn sgil y gwaharddiad -

- (a) yn cael ei wahardd o'r uned cyfeirio disgyblion am gyfanswm o fwy na phum diwrnod ysgol

(b) in relation to a pupil of compulsory school age who was aged 11 or above on the day before the beginning of the school year in which that pupil is excluded, both that pupil and a parent of his or hers;

(c) in relation to a pupil who is above compulsory school age, the pupil himself or herself.

(2) Any exclusion for a fixed period consisting of the period between the morning and afternoon school sessions is for the purposes of these Regulations to be taken as equivalent to a quarter of a school day.

Responsible Body

3. For the purposes of section 52(5) of the 2002 Act the local education authority which maintains a pupil referral unit(a) is prescribed as the responsible body in relation to a fixed period exclusion from that pupil referral unit.

Power of teacher in charge to exclude pupils

4. A teacher in charge of a pupil referral unit may not exercise the power under section 52(2) of the 2002 Act so as to exclude a pupil from the pupil referral unit for one or more fixed periods if, as a result, the pupil would be excluded for more than 45 school days in any one school year.

Exclusion of pupils: duty to inform the relevant person and local education authority

5.-(1) Where the teacher in charge of a pupil referral unit excludes any pupil for a fixed period, the teacher in charge must without delay take reasonable steps to inform the relevant person of the following matters -

- (a) the period of exclusion;
- (b) the reasons for exclusion;
- (c) that he or she may make representations about the exclusion to the local education authority and that the excluded pupil may also make representations about the exclusion to the local education authority where the pupil is not the relevant person; and
- (d) the means by which such representations may be made.

(2) Where the teacher in charge of a pupil referral unit excludes any pupil for a fixed period in circumstances where the pupil would, as a result of the exclusion -

- (a) be excluded from the pupil referral unit for a total of more than five school days in any one

(a) O.S. 2003/3227 (Cy. 308) .

(b) Sefydliar a chynhelir unedau cyfeirio disgyblion o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56).

(a) Pupil referral units are established and maintained under section 19 of the Education Act 1996 (c.56).

mewn unrhyw dymor unigol, neu

- (b) yn colli cyfle i sefyll unrhyw arholiad cyhoeddus,

rhaidd i'r athro neu'r athrawes â gofal hysbysu'r awdurdod addysg lleol yn ddi-oed o gyfnod y gwaharddiad a'r rheswm drosto.

(3) Os bydd athro neu athrawes â gofal uned cyfeirio disgyblion yn gwahardd unrhyw ddisgybl yn barhaol neu'n penderfynu y dylid gwneud unrhyw waharddiad ar ddisgybl am gyfnod penodedig yn waharddiad parhaol, rhaidd i'r athro neu'r athrawes â gofal yn ddi-oed -

- (a) cymryd camau rhesymol i hysbysu'r person perthnasol a'r awdurdod addysg lleol o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto; a
- (b) yn ychwanegol roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person perthnasol o'r penderfyniad gan ddatgan y materion canlynol -
- (i) y rhesymau dros y penderfyniad,
- (ii) ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad,
- (iii) y person y dylai roi unrhyw hysbysiad apêl iddo,
- (iv) bod yn rhaidd i unrhyw hysbysiad apêl gynnwys seiliau'r apêl, a
- (v) y dyddiad olaf y ceir gwneud yr apêl.

(4) Ceir rhoi'r hysbysiad ysgrifenedig y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(b) naill ai -

- (a) drwy ei draddodi â llaw i gyfeiriad hysbys diwethaf y person perthnasol, neu
- (b) drwy ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf mewn amlen sydd wedi'i chyfeirio'n briodol ac y mae wedi talu ymlaen llaw amdani i gyfeiriad hysbys diwethaf y person perthnasol.

(5) Ym mhob tymor rhaidd i'r athro neu'r athrawes â gofal hysbysu'r awdurdod addysg lleol o unrhyw waharddiadau na ddônt o fewn paragraffau (2) neu (3) ac yn achos pob gwaharddiad o'r fath rhaidd darparu manylion am gyfnod y gwaharddiad a'r rheswm drosto.

Gwahardd disgyblion: darparu gwybodaeth i'r awdurdod addysg lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

6. -(1) Yn ystod pob tymor rhaidd i'r athro neu'r athrawes â gofal ddarparu'r wybodaeth ganlynol am bob gwaharddiad i'r awdurdod addysg lleol -

- (a) enw, oedran, rhyw a grŵp ethnig y disgybl sydd wedi'i wahardd;
- (b) a oes gan y disgybl sydd wedi'i wahardd ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n cael ei gadw gan awdurdod addysg lleol o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996(a), a yw'n cael ei asesu ar gyfer datganiad o'r fath

(a) 1996 p.56.

term, or

- (b) lose an opportunity to take any public examination,

the teacher in charge must without delay inform the local education authority of the period of the exclusion and the reasons for it.

(3) Where the teacher in charge of a pupil referral unit excludes any pupil permanently or decides that any exclusion of a pupil for a fixed period should be made permanent, the teacher in charge must without delay -

- (a) take reasonable steps to inform the relevant person and the local education authority of the decision and the reasons for it; and
- (b) in addition give the relevant person notice in writing of the decision stating the following matters -
- (i) the reasons for the decision,
- (ii) his or her right to appeal against the decision,
- (iii) the person to whom he or she should give any notice of appeal,
- (iv) that any notice of appeal must contain the grounds of appeal, and
- (v) the last date on which an appeal may be made.

(4) The notice in writing referred to in paragraph (3)(b) may be given either -

- (a) by delivering it by hand to the relevant person's last known address, or
- (b) by sending it by first class post in a properly addressed, pre-paid envelope to the relevant person's last known address.

(5) The teacher in charge must in each term inform the local education authority of any exclusions which do not fall within paragraphs (2) or (3) and in respect of each such exclusion must provide details of the period of the exclusion and the reason for it.

Exclusion of pupils: provision of information to the local education authority and the National Assembly for Wales

6.-(1) The teacher in charge must in each term provide the following information on each exclusion to the local education authority -

- (a) the excluded pupil's name, age, gender and ethnic group;
- (b) whether the excluded pupil has a statement of special educational needs maintained by a local education authority under section 324 of the Education Act 1996(a), is being assessed for such a statement or is receiving support

(a) 1996 c.56.

neu a yw'n cael cymorth ar ffurf Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn unol â "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru(a)" a gyhoeddwyd o dan adran 313 o Ddeddf Addysg 1996 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002;

- (c) a yw'r disgybl sydd wedi'i wahardd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol;
- (ch) cyfnod y gwaharddiad;
- (d) y rheswm dros y gwaharddiad.

(2) Rhaid i awdurdod addysg lleol ddarparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, os bydd yn gofyn amdani, unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod hwnnw wedi'i chael oddi wrth athro neu athrawes â gofal o dan reoliad 5(5) a 6(1).

Swyddogaethau awdurdod addysg lleol mewn perthynas â disgyblion wedi'u gwahardd am gyfnod penodedig

7. -(1) Mae paragraffau (2) i (6) yn gymwys pan hysbysir awdurdod addysg lleol o dan reoliad 5(2) o waharddiad unrhyw ddisgybl am gyfnod penodedig, a bod yr amgylchiadau yn golygu y byddai'r disgybl, yn sgil y gwaharddiad -

- (a) yn cael ei wahardd o'r uned cyfeirio disgyblion am gyfanswm o fwy na phymtheg diwrnod ysgol mewn unrhyw dymor unigol, neu
- (b) yn colli cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus.

(2) Ym mhob achos o'r fath rhaid i'r awdurdod addysg lleol -

- (a) ystyried o dan ba amgylchiadau y cafodd y disgybl ei wahardd;
- (b) ystyried unrhyw sylwadau ynghylch y gwaharddiad sy'n cael eu rhoi i'r awdurdod addysg lleol -
 - (i) gan y person perthnasol yn unol â rheoliad 5(1)(c),
 - (ii) gan y disgybl sydd wedi'i wahardd yn unol â rheoliad 5(1)(c) os nad y person perthnasol yw'r disgybl hwnnw, a
 - (iii) gan yr athro neu'r athrawes sydd â gofal yr uned cyfeirio disgyblion;
- (c) caniatáu i bob un o'r canlynol, sef -
 - (i) y person perthnasol, a
 - (ii) y disgybl sydd wedi'i wahardd os nad y person perthnasol yw'r disgybl hwnnw, a
 - (iii) yr athro neu'r athrawes sydd â gofal yr uned cyfeirio disgyblion,

fynd i gyfarfod â'r awdurdod addysg lleol a rhoi sylwadau llafar am y gwaharddiad; ac

through School Action or School Action Plus pursuant to "The Special Educational Needs Code of Practice for Wales(a)" which was issued under section 313 of the Education Act 1996 and came into force on 1st April 2002;

- (c) whether the excluded pupil is looked after by a local authority;
- (d) the period of the exclusion; and
- (e) the reason for the exclusion.

(2) A local education authority must provide to the National Assembly for Wales at its request any information they have received from a teacher in charge under regulation 5(5) and 6(1).

Functions of local education authority in relation to pupils excluded for a fixed period

7.-(1) Paragraphs (2) to (6) apply where the local education authority are informed under regulation 5(2) of the exclusion of any pupil for a fixed period, and the circumstances are that the pupil would, as a result of the exclusion -

- (a) be excluded from the pupil referral unit for a total of more than fifteen school days in any one term, or
- (b) lose an opportunity to take a public examination.

(2) The local education authority must in any such case -

- (a) consider the circumstances in which the pupil was excluded;
- (b) consider any representations about the exclusion made to the local education authority -
 - (i) by the relevant person in pursuance of regulation 5(1)(c),
 - (ii) by the excluded pupil where the pupil is not the relevant person in pursuance of regulation 5(1)(c), and
 - (iii) by the teacher in charge of the pupil referral unit;
- (c) allow each of the following, namely -
 - (i) the relevant person,
 - (ii) the excluded pupil where the pupil is not the relevant person, and
 - (iii) the teacher in charge of the pupil referral unit,

to attend a meeting with the local education authority and to make oral representations about the exclusion; and

(ch) ystyried unrhyw sylwadau llafar sy'n cael eu rhoi felly.

(3) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol ystyried a ddylid derbyn y disgybl yn ôl neu beidio, ac os yw'n ystyried y dylid derbyn y disgybl yn ôl, rhaid iddo'n ychwanegol ystyried a ddylid ei dderbyn yn ôl ar unwaith, neu a ddylid ei dderbyn yn ôl erbyn dyddiad penodol.

(4) Os bydd yr awdurdod addysg lleol yn penderfynu y dylid derbyn disgybl yn ôl, rhaid iddo yn ddi-oed -

- (a) rhoi'r cyfarwyddyd priodol i'r athro neu'r athrawes â gofal, a
- (b) hysbysu'r person perthnasol o'i benderfyniad.

(5) Rhaid i'r athro neu'r athrawes â gofal gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan yr awdurdod addysg lleol i dderbyn disgybl a gafodd ei wahardd yn ôl i'r uned cyfeirio disgyblion.

(6) Os bydd yr awdurdod addysg lleol yn penderfynu na ddylid derbyn disgybl yn ôl, rhaid iddo hysbysu'r person perthnasol a'r athro neu'r athrawes â gofal yn ddi-oed am ei benderfyniad a'r rhesymau drosto.

(7) Os digwydd y canlynol -

- (a) bod yr athro neu'r athrawes sydd â gofal uned cyfeirio disgyblion yn gwahardd disgybl am gyfnod penodedig mewn achos nad yw paragraffau (2) i (6) yn gymwys iddo; a
- (b) bod yr awdurdod addysg lleol yn cael unrhyw sylwadau sydd wedi'u gwneud yn unol â rheoliad 5(1)(c) gan y person perthnasol ynghylch y gwaharddiad,

rhaid iddo ystyried y sylwadau hynny.

(8) Yn ddarostyngedig i baragraff (9), rhaid i'r awdurdod addysg lleol gymryd pob un o'r camau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) -

- (a) dim cynharach na chwe diwrnod ysgol; a
- (b) dim hwyrach na 15 diwrnod ysgol, yn achos gwaharddiad am gyfnod penodedig o fwy na 15 diwrnod ysgol; neu
- (c) dim hwyrach na 50 diwrnod ysgol, yn achos gwaharddiad am gyfnod penodedig o 15 diwrnod ysgol neu lai;

ar ôl y dyddiad yr hysbyswyd ef o'r materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 5(2).

(9) Os gwaharddwyd disgybl am gyfnod penodedig mewn amgylchiadau lle y byddai, yn sgil y gwaharddiad, yn colli cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus, rhaid i'r awdurdod addysg lleol (i'r graddau y mae'n ymarferol iddo wneud hynny) gymryd pob un o'r camau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) cyn y dyddiad y mae'r disgybl i sefyll yr arholiad a beth bynnag dim hwyrach na'r hyn sy'n ofynnol ym mharagraff (8).

(d) consider any oral representations so made.

(3) The local education authority must consider whether or not the pupil should be reinstated and where they consider that the pupil should be reinstated, they must in addition consider whether he or she should be reinstated immediately, or reinstated by a particular date.

(4) If the local education authority decide that the pupil should be reinstated, they must without delay -

- (a) give the appropriate direction to the teacher in charge, and
- (b) inform the relevant person of their decision.

(5) The teacher in charge must comply with any direction of the local education authority for the reinstatement of a pupil who has been excluded from the pupil referral unit.

(6) If the local education authority decide that the pupil should not be reinstated, they must without delay inform the relevant person and the teacher in charge of their decision and the reasons for it.

(7) Where -

- (a) the teacher in charge of a pupil referral unit excludes a pupil for a fixed period in a case where paragraphs (2) to (6) do not apply; and
- (b) the local education authority receive any representations made in pursuance of regulation 5(1)(c) by the relevant person about the exclusion,

they must consider those representations.

(8) Subject to paragraph (9), the local education authority must take each of the steps referred to in paragraph (2) -

- (a) not earlier than six school days; and
- (b) not later than 15 school days, in the case of an exclusion for a fixed period of more than 15 school days; or
- (c) not later than 50 school days, in the case of an exclusion for a fixed period of 15 school days or fewer,

after the date on which they were informed of the matters referred to in regulation 5(2).

(9) Where a pupil has been excluded for a fixed period in circumstances in which he or she would, as a result of the exclusion, lose an opportunity to take a public examination, the local education authority must (so far as it is practical for them to do so) take each of the steps referred to in paragraph (2) before the date on which the pupil is due to take the examination and in any event no later than is required by paragraph (8).

(10) Nid yw'r corff llywodraethu i gael ei ryddhau o'r ddyletswydd i gymryd unrhyw gam y cyfeirir ato ym mharagraff (2) am na chafodd ei gymryd o fewn y cyfnodau a bennir ym mharagraffau (8) a (9).

Apelau yn erbyn gwahardd disgyblion yn barhaol

8. -(1) Rhaid i awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i alluogi'r person perthnasol i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan yr athro neu'r athrawes â gofal o dan adran 52(2) i wahardd disgybl yn barhaol o uned cyfeirio disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod.

(2) Mae'r Atodlen i Reoliadau 2003 yn effeithiol, gyda'r addasiadau a ragnodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, mewn perthynas â gwneud a gwranddo ar apelau yn unol â'r trefniadau a wnaed o dan baragraff (1); ac ym mharagraffau (3) i (5) ystyr "panel apêl" yw panel apêl a ffurfiwyd yn unol â pharagraff 2 o'r Atodlen i Reoliadau 2003 fel y'u haddaswyd.

(3) Nid yw panel apêl i benderfynu bod disgybl i'w dderbyn yn ôl ddim ond oherwydd i unrhyw berson fetu cydymffurfio ag unrhyw ofynion gweithdrefnol a osodwyd gan neu o dan y Rheoliadau hyn mewn perthynas â'r penderfyniad o dan adran 52(2) o Ddeddf 2002 y mae'r apêl yn cael ei dwyn yn ei herbyn.

(4) Bydd penderfyniad panel apelau ar apêl yn unol â threfniadau a wnaed o dan baragraff (1) yn rhwymol ar y person perthnasol, yr athro neu'r athrawes â gofal a'r awdurdod addysg lleol.

(5) Ar apêl o'r fath caiff y panel apêl -

- (a) cadarnhau'r gwaharddiad;
- (b) cyfarwyddo bod y disgybl i gael ei dderbyn yn ôl (naill ai ar unwaith neu erbyn dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd), neu
- (c) penderfynu oherwydd amgylchiadau eithriadol neu am resymau eraill nad yw'n ymarferol i roi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i'w dderbyn yn ôl, ond y byddai fel arall wedi bod yn briodol i roi cyfarwyddyd o'r fath.

Gwahardd disgyblion: canllawiau

9. Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw swyddogaethau -

- (a) yr athro neu'r athrawes sydd â gofal uned cyfeirio disgyblion,
- (b) awdurdod addysg lleol, neu
- (c) panel apêl a ffurfiwyd yn unol â pharagraff 2 o'r Atodlen i Reoliadau 2003 fel y'u haddaswyd,

o dan adran 52(2) o Ddeddf 2002 neu o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth o'r fath,

(10) The local education authority is not relieved of the duty to take any step referred to in paragraph (2) because it has not been taken within the periods specified in paragraphs (8) and (9).

Appeals against permanent exclusion of pupils

8.-(1) A local education authority must make arrangements for enabling the relevant person to appeal against any decision of the teacher in charge under section 52(2) of the 2002 Act to permanently exclude a pupil from a pupil referral unit maintained by the authority.

(2) The Schedule to the 2003 Regulations has effect, with the modifications prescribed in the Schedule to these Regulations, in relation to the making and hearing of appeals pursuant to arrangements made under paragraph (1); and in paragraphs (3) to (5) "appeal panel" means an appeal panel constituted in accordance with paragraph 2 of the Schedule to the 2003 Regulations as modified.

(3) An appeal panel must not determine that a pupil is to be reinstated merely because of the failure of any person to comply with any procedural requirement imposed by or under these Regulations in relation to the decision under section 52(2) of the 2002 Act against which the appeal is brought.

(4) The decision of an appeal panel on an appeal pursuant to arrangements made under paragraph (1) is binding on the relevant person, the teacher in charge and the local education authority.

(5) On such an appeal the appeal panel may -

- (a) uphold the exclusion;
- (b) direct that the pupil is to be reinstated (either immediately or by a date specified in the direction), or
- (c) decide that because of exceptional circumstances or for other reasons it is not practical to give a direction requiring his or her reinstatement, but that it would otherwise have been appropriate to give such a direction.

Exclusion of pupils: guidance

9. This regulation applies to any functions of -

- (a) the teacher in charge of a pupil referral unit,
- (b) a local education authority, or
- (c) an appeal panel constituted in accordance with paragraph 2 of the Schedule to the 2003 Regulations as modified,

under section 52(2) of the 2002 Act or these Regulations.

(2) In discharging any such function, such a person

rhaid i'r cyfryw berson neu gorff roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir o dro i dro gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dirymu

10. -(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) dirymir Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003(a).

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) i effeithio ar gymhwysiad parhaol y Rheoliadau hynny yn rhinwedd rheoliad 7 o Reoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol) (Rhif 2) (Cymru) 2003(b) (disgyblion sydd wedi'u gwahardd cyn 9 Ionawr 2004).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(c)

9 Rhagfyr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol Cymru

or body must have regard to any guidance given from time to time by the National Assembly for Wales.

Revocation

10.-(1) Subject to paragraph (2) the Education (Pupil Referral Units) (Appeals against Permanent Exclusion) (Wales) Regulations 2003(a) are revoked.

(2) Nothing in paragraph (1) is to affect the continued application of those Regulations by virtue of regulation 7 of the Education Act 2002 (Transitional Provisions) (No.2) (Wales) Regulations 2003(b) (pupils excluded before 9th January 2004).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(c)

9th December 2003

The Presiding Officer of the National Assembly

D. Elis-Thomas

(a) O.S. 2003/287 (Cy.39).

(b) O.S. 2003/2959 (Cy.277).

(c) 1998 p.38.

(a) S.I. 2003/287 (W.39).

(b) S.I. 2003/2959 (W.277).

(c) 1998 c.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 8

ADDASIADAU I'R ATODLEN I REOLIADAU ADDYSG (GWAHARDD DISGYBLION AC APELAU) (YSGOLION A GYNHELIR) (CYMRU) 2003

1. Yn lle paragraff 1(1) rhoddir -
"1.-(1) Ni cheir gwneud apêl o dan reoliad 8(1) yn erbyn penderfyniad i wahardd disgybl yn barhaol ar ôl y pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod y rhoddwyd i'r person perthnasol hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 5(3)(b)."
2. Ym mharagraff 1(3), yn lle'r geiriau "i beidio â derbyn disgybl yn ôl", rhoddir "i wahardd y disgybl yn barhaol".
3. Yn lle "rheoliad 7(1)" ym mhob man y mae'n digwydd, rhodder "rheoliad 8(1)".
4. Yn lle paragraff 2(7) rhoddir -
"(7) Datgymhwysir y bobl a ganlyn rhag bod yn aelodau panel apêl -
 - (a) unrhyw aelod o'r awdurdod addysg lleol neu bwyllgor rheoli (os oes un) yr uned cyfeirio disgyblion o dan sylw;
 - (b) yr athro neu'r athrawes sydd â gofal yr uned cyfeirio disgyblion o dan sylw neu unrhyw athro neu athrawes yn yr uned honno neu unrhyw berson sydd wedi dal unrhyw swydd o'r fath yn y pum mlynedd flaenorol;
 - (c) unrhyw berson a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol, heblaw person a gyflogir fel pennaeth neu athro neu athrawes;
 - (ch) unrhyw berson y mae ganddo, neu y bu ganddo ar unrhyw adeg, gysylltiad â'r canlynol -
 - (i) yr awdurdod addysg lleol neu'r uned cyfeirio disgyblion, neu gysylltiad ag unrhyw berson o fewn paragraff (b) neu (c), neu
 - (ii) y disgybl o dan sylw neu â'r digwyddiad a arweiniodd at ei wahardd,

o fath, y gellid yn rhesymol gymryd, a fyddai'n codi amheuan am ei allu i weithredu'n ddieduedd."

SCHEDULE

Regulation 8

MODIFICATIONS OF THE SCHEDULE TO THE EDUCATION (PUPIL EXCLUSIONS AND APPEALS) (MAINTAINED SCHOOLS) (WALES) REGULATIONS 2003

1. For paragraph 1(1) there is substituted -
"1.-(1) No appeal under regulation 8(1) against a decision to permanently exclude a pupil may be made after the fifteenth school day after the day on which the relevant person is given notice in writing under regulation 5(3)(b)."
2. In paragraph 1(3) for the words "not to reinstate" there is substituted the words "to permanently exclude".
3. For "regulation 7(1)" in each place where it occurs, there is substituted "regulation 8(1)".
4. For paragraph 2(7) there is substituted -
"(7) The following persons are disqualified for membership of an appeal panel -
 - (a) any member of the local education authority or of the management committee (where one exists) of the pupil referral unit in question;
 - (b) the teacher in charge of, or any teacher at, the pupil referral unit in question or any person who has held any such position within the previous five years;
 - (c) any person employed by the local education authority, other than a person employed as a head teacher or a teacher;
 - (d) any person who has, or at any time has had, any connection with -
 - (i) the local education authority or the pupil referral unit, or with any person within paragraph (b) or (c), or
 - (ii) the pupil in question or the incident leading to his or her exclusion,

of a kind which might reasonably be taken to raise doubts about his or her ability to act impartially."

5. Yn lle paragraff 10(2) rhoddir -

"(2) Rhaid i'r panel hefyd ganiatáu -

- (a) i'r athro neu'r athrawes â gofal roi sylwadau ysgrifenedig, i gael ei gynrychioli neu ei chynrychioli ac i ymddangos a rhoi sylwadau llafar, a
- (b) i'r awdurdod addysg lleol roi sylwadau ysgrifenedig, yn ychwanegol at y datganiad y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei gyflwyno i'r panel o dan is-baragraff (1), i gael ei gynrychioli ac i ymddangos a rhoi sylwadau llafar."

6. Ym mharagraff 14(a) hepgorir "y corff llywodraethu".

5. For paragraph 10(2) there is substituted -

"(2) The panel must also allow -

- (a) the teacher in charge to make written representations, to be represented and to appear and make oral representations, and
- (b) the local education authority to make written representations in addition to the statement the authority is required to submit to the panel under sub-paragraph (1), to be represented and to appear and make oral representations."

6. In paragraph 14(a) ", the governing body" is omitted.

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 3246 (Cy.321)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwahardd
Disgyblion ac Apelau) (Unedau
Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 3246 (W.321)

EDUCATION, WALES

The Education (Pupil Exclusions
and Appeals) (Pupil Referral Units)
(Wales) Regulations 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.50

W221/12/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090835-X



9 780110 908359